



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru

Model Rôl – Cod Ymddygiad

Mae Modelau Rôl Syniadau Mawr Cymru yn cynrychioli Llywodraeth Cymru ac fel y cyfryw mae disgwyl iddynt barchu'r egwyddorion a bennir yn y Cod Ymddygiad hwn.

Wrth gyflawni'ch dyletswyddau, rhaid i chi, yn yr iaith a ddefnyddiwyd a'r camau a gymerwch, ymdrin â phobl eraill yn barchus, yn deg, yn effeithlon, yn brydlon, yn effeithiol ac yn synhwyrol hyd eithaf eich gallu. Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn modd sy'n bychanu neu'n tanseilio eraill, yn ffafrio neu'n gwahaniaethu'n anghyfiawnadwy yn erbyn unigolion neu fuddiannau penodol neu mewn ffordd a fyddai'n peri sarhad neu niwed i unigolion neu grwpiau.

Fel Model Rôl bydd disgwyl i chi:

- gyflawni'ch dyletswyddau a'ch rhwymedigaethau fel Model Rôl yn gyfrifol.
- ymddwyn gyda gonestrwydd a chywirdeb ar bob adeg.
- ymddwyn mewn modd sy'n broffesiynol ac sy'n haeddu ac yn cynnal hyder pawb rydych yn gweithredu ar eu rhan ac rydych yn ymwneud â hwy.
- ymrwymo'n llawn i ddiogelu (gweler Polisi Diogelu Syniadau Mawr Cymru) a hyrwyddo lles y bobl ifanc yn ystod y cyfnod rydych yn cynrychioli Syniadau Mawr Cymru.
- cyflawni'ch cyfrifoldebau mewn modd sy'n deg ac yn gyfiawn a hynny yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- cadw'ch safbwyntiau a'ch gweithrediadau personol ar wahân i'r rhai rydych yn eu cymryd wrth gyflawni'ch dyletswyddau.
- gweithredu o fewn cyfreithiau perthnasol a pheidio ag annog, cynorthwyo na chydgyllwynio â phobl eraill sy'n ymddwyn mewn modd sy'n anonest, yn anghyfreithlon neu'n wahaniaethol.
- sicrhau bod gennych y polisiau yswiriant priodol mewn lle.
- hysbysu staff Syniadau Mawr Cymru pe bai unrhyw fater yn eich erbyn chi a allai fod yn groes i'r cod ymddygiad o bosibl neu ddwyn anfri ar y Rhaglen.

 @SyniadauMawrCymru | @BigIdeasWales

 SyniadauMawrCymru | BigIdeasWales

SyniadauMawr.cymru | BigIdeas.wales



**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

Yn anad dim fel Model Rôl rhaid i chi beidio â gwneud y canlynol:

- camddefnyddio'ch sefyllfa drwy ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol a geir yn ystod eich dyletswyddau neu drwy ddefnyddio unrhyw wybodaeth o'r fath i hybu'ch buddiannau preifat chi neu fuddiannau pobl eraill.
- cyflawni'ch dyletswyddau er mwyn ennill buddion ariannol neu eraill i'ch hunan, eich teulu neu'ch ffrindiau neu er mwyn gosod eich hun o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnoch wrth gyflawni'ch dyletswyddau.
- ceisio neu dderbyn rhoddion neu letygarwch neu dderbyn buddion eraill oddi wrth neb er budd personol neu broffesiynol y gellid ystyried yn rhesymol y byddai'n cyfaddawdu'ch barn neu'ch cywirdeb personol.
- defnyddio neu fod dan ddylanwad cyffuriau anghyfreithlon, alcohol neu dybaco wrth gyflawni'ch dyletswyddau a'ch rhwymedigaethau fel Model Rôl. Mae troseddau sy'n cynnwys trais neu feddiant neu ddefnydd cyffuriau anghyfreithlon neu gamymddygiad rhywiol yn cael eu hystyried yn annerbyniol.
- o dan unrhyw amgylchiadau rhoi eich manylion cyswllt personol neu rai eich busnes/au i unrhyw grŵp neu unigolyn ond yn hytrach cyfeirio unrhyw grŵp neu unigolyn at wefan Syniadau Mawr Cymru neu gysylltu ag aelod o staff Syniadau Mawr Cymru.
- ymgymryd ag ymddygiad neu fod dan ymchwiliad am rywbeth a allai niweidio enw da neu ddwyn anfri ar Weinidogion Cymru, Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru, Syniadau Mawr Cymru neu unrhyw sefydliad neu gorff arall.

Gall unrhyw doriad y cod ymddygiad a gaiff ei gadarnhau arwain at eich tynnu o'r Rhaglen ac unrhyw gysylltiad â hi. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir am hyn yn derfynol.

Fel Model Rôl a fydd yn darparu cefnogaeth i unigolion bydd disgwyl i chi:

- ymarfer cywirdeb, gonestrwydd, diwydrwydd ac ymddygiad priodol ar bob adeg.
- datgelu ar y cyfle cyntaf unrhyw gysylltiadau, amgylchiadau neu fuddiannau busnes arbennig a allai ddylanwadu neu amharu, neu y gallai'r Cleient neu eraill ystyried y gallai ddylanwadu neu amharu, ar farn neu wrthrychedd Cymdeithion ar aseiniad penodol.
- ddarparu cefnogaeth ac arweiniad mewn modd cyfeillgar, nad yw'n barnu, sy'n galluogi'r mentai i wneud penderfyniadau.
- cadw unrhyw wybodaeth mae'r mentai yn ei dweud wrthyh yn gyfrinachol.
- gweithio gyda pherson ifanc o dan 18 oed ar sail unigol dim ond os bydd oedolyn cyfrifol yn bresennol.
- sicrhau ar gyfer pob sesiwn gydag unigolion ifanc 18 oed ac yn hŷn eich bod yn defnyddio man cyhoeddus ar gyfer eich rhyngweithrediad gan ei bod yn bosibl na fydd oedolyn cyfrifol gydag ef neu hi.




@SyniadauMawrCym | @BigIdeasWales



SyniadauMawrCymru | BigIdeasWales

SyniadauMawr.cymru | BigIdeas.wales



Datganiad Diogelu Syniadau Mawr Cymru

Mae'r datganiad diogelu hwn yn berthnasol i bob oedolyn, gan gynnwys gwirfoddolwyr, sy'n gweithio fel rhan o Syniadau Mawr Cymru neu ar ei ran.

Mae tîm Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu pob Model Rôl wrth iddynt weithio ar Syniadau Mawr Cymru neu ei gynrychioli a'u bwriad fydd sicrhau eich bod yn cael eich goruchwyllo drwy gydol eich ymweliad ag Ysgol, Coleg, Prifysgol neu leoliad tu allan i addysg. Mae diogelu'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth gyda threfniadau ar waith i sicrhau:

- bod gwybodaeth bersonol/busnes Modelau Rôl a ddarperir yn ddiogel ac yn cael ei thrin yn ddiogel er mwyn amddiffyn eich preifatrwydd
- bod Modelau Rôl yn teimlo'n ddiogel ac yn ddiogel ar bob adeg tra byddant mewn unrhyw adeiladau gn gynrychioli Syniadau Mawr Cymru.
- bod Modelau Rôl yn ymwybodol bod gan Syniadau Mawr Cymru bolisiâu a gweithdrefnau yn eu lle i ddelio'n effeithiol ag unrhyw faterion amddiffyn a diogelu plant sy'n codi ynghyd â phrosesau cofnodi a monitro cadarn.

Gall darparwyr addysg asesu pobl sydd am weithio neu wirfoddoli gyda phlant a phobl ifanc. Gwneir hyn drwy gynnal gwiriadau personol o'r Rhestr Gwaharddiadau mewn Perthynas â Phlant (Rhestr 99) ar staff a gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau eu haddasrwydd i weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i Syniadau Mawr Cymru rannu'ch data personol â darparwyr addysg. Gall hyn gynnwys ond heb gael ei gyfyngu i'ch enw a'ch dyddiad geni. Caiff y data personol rydych wedi ei roi i ni ei brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Bydd yr holl ddata personol o'r fath yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol ar bob adeg a'i gadw dim ond am y cyfnod sy'n angenrheidiol neu sy'n ofynnol o dan y gyfraith.

Swyddogion Arweiniol Diogelu Dynodedig (DSLO)

Mae gan Syniadau Mawr Cymru Swyddogion Arweiniol Diogelu Dynodedig sy'n gyfrifol am ymdrin ag unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant/pobl ifanc ac oedolion hawdd eu niweidio.

- Paul Brown paul.brown@syniadaumawrcymru.com 02920 441900 neu 07789 616792
- Delyth Rowlands (Dirprwy) delyth.rowlands@syniadaumawrcymru.com neu 07776 160082



Polisi Diogelu Syniadau Mawr Cymru


Mae copi o Bolisi Diogelu Syniadau Mawr Cymru wedi cael ei ddarparu i chi ei ddarllen a derbyn ei gynnwys.

Darllenwch y Polisi Diogelu yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall y polisi cyn ei lofnodi. Wrth lofnodi'r ddogfen hon, rydych yn cytuno i barchu ei holl gofynion a disgwyliadau wrth weithio ar ran Syniadau Mawr Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ar unrhyw adeg, ynghylch y polisi, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Diogelu Dynodedig.

Mae copi o'r Polisi hwn wedi cael ei ddarparu ar y ar y cof bach o fewn eich pecyn hyfforddiant cynefino ac mae copi ohono ar gael ar wefan Syniadau Mawr Cymru.

Rydym yn eich annog i hyrwyddo a chefnogi'r Cod Ymddygiad hwn drwy fod yn esiampl i'r holl bobl ifanc rydych yn cwrdd â hwy.



Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru

Cod Ymddygiad Modelau Rôl

Datganiad Modelau Rôl

Rwyf wedi darllen ac yn cytuno i barchu Cod Ymddygiad Syniadau Mawr Cymru a'r Polisi Diogelu cysylltiedig wrth gyflawni fy nyletswyddau a'm rhwymedigaethau fel Model Rôl i Brosiect Syniadau Mawr Cymru.

Enw:

Enw'r Busnes:

Llofnod:

Dyddiad:

(I'w gadw gan y *Darparwr Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru*)



Gwasanaethau Syniadau Mawr Cymru

Cod Ymddygiad Modelau Rôl

Datganiad Modelau Rôl

Rwyf wedi darllen ac yn cytuno i barchu Cod Ymddygiad Syniadau Mawr Cymru a'r Polisi Diogelu cysylltiedig wrth gyflawni fy nyletswyddau a'm rhwymedigaethau fel Model Rôl i Brosiect Syniadau Mawr Cymru.

Enw:

Enw'r Busnes:

Llofnod:

Dyddiad:

(I'w gadw gan y **Model Rôl Syniadau Mawr Cymru**)

 @SyniadauMawrCym | @BigIdeasWales

 SyniadauMawrCymru | BigIdeasWales

SyniadauMawr.cymru | **BigIdeas.wales**

